Newyddlen Blog Canolfan San Silyn

Cefnogi addysgu a dysgu yn Wrecsam

Annwyl Gydweithwyr,

Daethom drwyddi! Bu hwn eto yn dymor hir a heriol, ond mae'r Nadolig wrth y drws a hoffem ddiolch i chi am eich gwaith caled rhyfeddol dros y tri mis diwethaf; am fod yn greadigol ac arloesol ac am eich ymroddiad, ac am barhau i ddarparu AG ystyrlon i'n dysgwyr yn Wrecsam.

Yma yng Nghanolfan San Silyn, rydym wedi bod yn brysur yn gweithio'n genedlaethol ar amryw o brosiectau, yn cynnwys (gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru) y Canllawiau Statudol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir, a phan fyddan nhw'n barod, rhown wybod i chi – felly cadwch eich llygaid ar agor!

Mae Canolfan San Silyn yn cynnal sesiwn ddysgu broffesiynol sylfaenol ar-lein i ymarferwyr yn Wrecsam ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru, ar 12 Ionawr. Gobeithiwn y bydd nifer ohonoch yno, ac edrychwn ymlaen at eich cefongi mewn amryw o ffyrdd yn ystod 2022 yn eich taith i weithredu'r Cwricwlwm.

Gan ddymuno gwyliau hapus, iach a haeddiannol i chi. Nadolig Llawen!

Libby a Tania

MAE CANOLFAN SAN SILYN YN CYNNIG SESIWN DDYSGU PROFFESIYNOL AR CGM YN Y CWRICWLWM I GYMRU I YSGOLION WRECSAM

Mae Canolfan San Silyn yn cynnig sesiwn ddysgu broffesiynol sylfaenol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn y Cwricwlwm i Gymru i ysgolion yn Wrecsam. Mae'r sesiwn am ddim a bydd yn cael ei chynnal ar Dimau Microsoft **ddydd Mercher, 12 Ionawr 2022 am 4pm**. *(Blog: 8 Rhagfyr 2021)*

Darllenwch ragor …

https://stgilescentre.org/cy/2021/12/08/st-giles-centre-offers-wrexham-schools-professional-learning-session-on-rve-in-the-curriculum-for-wales/

BETH SY'N DIGWYDD YN EWROP?

Yn rhifyn mis Rhagfyr o gylchlythyr ICCS* (a gyhoeddwyd heddiw), gallwch ddarllen am y datblygiadau Ewropeaidd diweddaraf sy'n berthnasol … *(Blog: 8 Rhagfyr 2021)*

Darllenwch ragor …

https://stgilescentre.org/cy/2021/12/08/whats-happening-in-europe/

HAWL RHIENI I OFYN AM GAEL TYNNU EU PLANT YN ÔL O CGM YN Y CWRICWLWM I GYMRU: NEWYDDION DIWEDDARAF GAN CCYSAGauC

Yr wythnos hon, mae gwybodaeth bwysig yn ymwneud â "Hawl rhieni i ofyn am gael tynnu eu plant yn ôl o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru" wedi'i chyhoeddi … *(Blog: 24 Tachwedd 2021)*

Darllenwch ragor …

https://stgilescentre.org/cy/2021/11/24/the-parental-right-to-request-withdrawal-from-rve-in-the-curriculum-for-wales-news-update-from-wales-association-of-sacres/

CREFYDD A DIWYLLIANT POBLOGAIDD, RHYWEDD, A DIWINYDDIAETH FFEMINISTAIDD YN HERIO MATERION CREFYDDOL

Crefydd a diwylliant poblogaidd, rhywedd,a diwinyddiaeth ffeministaidd yw rhai o'r pynciau a drafodir yn y cyfnodolyn, *Herio Materion Crefyddol* (Rhifyn 14). Yn ddiweddar, mae Canolfan San Silyn wedi cyfieithu a chyhoeddi fersiwn Gymraeg y rhifyn hwn (cyhoeddwyd y fersiwn Saesneg yn yr Hydref 2018).
(Blog: 24 Tachwedd 2021)

Darllenwch ragor …

https://stgilescentre.org/cy/2021/11/24/religion-and-popular-culture-gender-and-feminist-theology-in-challenging-religious-issues/

CYMWYS AR GYFER Y DYFODOL: CYHOEDDI ADRODDIADAU AR Y 'GENHEDLAETH NEWYDD' O ARHOLIADAU TGAU I GYMRU

Heddiw, cyhoeddwyd pedwar adroddiad arwyddocaol gan Cymwysterau Cymru. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r broses barhaus o adolygu a diwygio TGAU yng Nghymru yng ngoleuni'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
(Blog: 14 Hydref 2021)

Darllenwch ragor …

https://stgilescentre.org/cy/2021/10/14/qualified-for-the-future-reports-published-on-the-new-generation-of-gcses-for-wales/

GADEWCH I NI ADRODD EIN STRAEON – EFFAITH GADARNHAOL CREFYDD MEWN ADDYSG (KLINGENTHAL 2021)

Mae staff Canolfan San Silyn yn edrych ymlaen at gymryd rhan mewn digwyddiad rhyngweithiol Ewropeaidd ar-lein ar **21 Hydref 2021** (1-5pm BST). Mae'r Comisiwn Rhyng-Ewropeaidd ar yr Eglwys a'r Ysgol (ICCS) a Grŵp Cydlynu Crefydd mewn Addysg yn Ewrop (CoGREE) wedi creu rhaglen gyffrous ar y thema: 'Gadewch i ni adrodd ein straeon – effaith gadarnhaol crefydd mewn addysg'. *(Blog: 29 Medi 2021)*

Darllenwch ragor …

https://stgilescentre.org/cy/2021/09/29/lets-tell-our-stories-the-positive-impact-of-religion-in-education-klingenthal-2021/

AGORED CYMRU DYFARNIAD LEFEL 2 MEWN ARCHWILIO BYDOLYGON

Mae gan Agored Cymru ddyfarniad Lefel 2 newydd, sy'n canolbwyntio ar archwilio bydolygon crefyddol ac anghrefyddol (Bydd y dyfarniad Lefel 1 ar gael cyn hir.) Lluniwyd y gyfres newydd hon o gymwysterau o'r enw *Archwilio Bydolygon* ar gyfer dysgwyr 14-16, a'i nod yw helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau sy'n bwysig i bobl ifanc allu byw a gweithio'n llwyddiannus mewn cymdeithas amrywiol sy'n newid yn gyflym. *(Blog: 17 Medi 2021)*

Darllenwch ragor …

https://stgilescentre.org/cy/2021/09/17/agored-cymru-level-2-award-in-exploring-worldviews/



DIEITHRIAID, CELF GRISTNOGOL, YR ENAID, A CHREFYDD YMHLYG YN HERIO MATERION CREFYDDOL

Dieithriaid, celf Gristnogol, yr enaid, a chrefydd ymhlyg yw rhai o'r pynciau a drafodir yn y cyfnodolyn, Herio Materion Crefyddol (Rhifyn 16). Yn ddiweddar, mae Canolfan San Silyn wedi cyfieithu a chyhoeddi fersiwn Gymraeg y rhifyn hwn (cyhoeddwyd y fersiwn Saesneg yng Ngwanwyn 2020). *(Blog: 28 Medi 2021)*

Darllenwch ragor…

https://stgilescentre.org/cy/2021/09/28/aliens-christian-art-the-soul-and-implicit-religion-in-challenging-religious-issues/

NEWYDDION EWROPEAIDD I EGLWYSI AC YSGOLION

Efallai y bydd gan y rheiny ohonoch sy'n gweithio ym maes yr Eglwys a'r Ysgol ddiddordeb mewn darllen newyddlen Gorffennaf 2021 gan y Comisiwn Rhyng-Ewropeaidd ar yr Eglwys a'r Ysgol (ICCS) a'r Gymdeithas Addysg Grefyddol Rynglwadol (IV). *(Blog: 3 Awst 2021)*

Darllenwch ragor…

https://stgilescentre.org/cy/2021/08/03/european-news-for-church-and-school/